# Bro Morgannwg

# Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr

# Gwanwyn 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

**Gwanwyn 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**

# Rhaglen Grymuso Llywodraethwyr

## Modiwl 1- Sefydlu llywodraethwyr newydd: rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr - 'adnabod fy ysgol'


Mae'r modiwl gorfodol diwygiedig hwn wedi'i anelu at lywodraethwyr newydd a rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn gyntaf y penodiad. Bydd yn helpu llywodraethwyr newydd i ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni eu rol yn effeithiol i gefnogi eu hysgol i godi safonau. Bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar:

- sut mae gweledigaeth yr ysgol yn siapio gwerthoedd ar draws cymuned yr ysgol ac yn sbarduno diwylliant o ddisgwyliadau uchel
- rolau a chyfrifoldebau allweddol llywodraethwyr
- cyfansoddiad cyrff llywodraethu a sut maent yn gweithio
- herio a chefnogi effeithiol

## Modiwl 2 -Rôl data wrth gefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion – 'yr hyn y mae angen i lywodraethwyr ei wybod a pham'

Nod y modiwl gorfodol wedi'i ddiweddaru hwn ar gyfer llywodraethwyr newydd yw datblygu dealltwriaeth o gynnydd ysgolion a data perfformiad. Mae’r sesiwn yn archwilio:

- y mathau o ddata a ddefnyddir gan ysgolion a’r rôl y mae data’n ei chwarae wrth wella ysgolion
- sut y gall llywodraethwyr ddefnyddio data i herio a chefnogi’r ysgol i wella
- sut mae Llywodraethwyr yn atebol am y cynnydd a wneir gan bob grŵp o ddysgwyr a sut mae’r data hwn yn cael ei gasglu a’i ddefnyddio gan eu hysgolion
- y mathau o gwestiynau y gall llywodraethwyr eu gofyn am ddata eu hysgolion eu hunain.



**Gwanwyn 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Rhaglen Grymuso Llywodraethwyr

## Modiwl 3- Diogelu: 'deall a hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth'

Mae'r modiwl dewisol hwn yn sail i hyfforddiant pwysig gan yr ALl ac yn helpu llywodraethwyr i gydnabod eu rôl wrth hyrwyddo diwylliant o wyliadwriaeth yn eu hysgolion.  Bydd y sesiwn yn helpu llywodraethwyr i ddeall:

- eu rôl wrth fonitro a hyrwyddo diogelu ar draws cymuned yr ysgol
- sut i gydymffurfio: polisïau a chadw cofnodion
- sut i greu diwylliant diogel ac iach sy'n cynnwys llais disgyblion a staff
- y sbectrwm o ddiogelu a diogelwch ar-lein.

## Modiwl 4- Galluogi tegwch a rhagoriaeth: 'dyheadau uchel i bawb'

Nod y sesiwn hon yw datblygu eich dealltwriaeth o pam mae tegwch, rhagoriaeth a lles yn hanfodol i sicrhau dyheadau uchel ar gyfer pob dysgwr.  Byddwch yn dechrau:

- adnabod rhwystrau i ddysgu a chyfleoedd i godi dyheadau pob dysgwr
- cydnabod yr amrywiaeth o grwpiau agored i niwed a'r angen i fonitro eu cynnydd yn drylwyr
- deall goblygiadau ac effaith Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn ysgolion a sut mae hyn yn cyfrannu at system decach i bawb.

# Sesiynau pynciau llosg

Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar 'bynciau llosg' addysg yng Nghymru. Maent yn cynnwys ywybodaeth ddiweddaraf sy'n ymwneud a'r pwnc, rhannu arfer ysgolion (fel sy'n briodol i'r pwnc),a chyfle i gael cwestiynau ac atebion.

## Rheoli Perfformiad Penaethiaid

Mae'r sesiwn hon wedi'i hanelu at lywodraethwyr sy'n gyfrifol am reoli perfformiad penaethiaid. Bydd y sesiwn hon yn:

- canolbwyntio ar yr argymhellion a'r diweddariadau yn dilyn Adolygiad Datblygiad Proffesiynol Llywodraeth Cymru Mawrth 2024
- canolbwyntio ar sicrhau bod gan lywodraethwyr y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ymgymryd a'r rol benodol hon
- caniatau i bob parti sy'n ymwneud ag adolygiadau Datblygiad Proffesiynol gael yr hyder i sicrhau bod y system yn gefnogol ac yn

## Sefydlu Cadeirydd Newydd

Mae hwn yn gwrs gorfodol ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr newydd. Bydd yn sicrhau bod y cadeirydd yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddechrau cyflawni eu rol yn effeithiol I gefnogi eu hysgol i godi safonau a chyflawni ei swyddogaethau statudol. Mae'r rhaglen yn darparu cyflwyniad ar:

- rol a sgiliau'r cadeirydd
- perthnasoedd allweddol
- sut i fod yn llywodraethwr effeithiol.

Mae'r sesiwn hon hefyd yn gyfle i chi godi unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r hyfforddiant, eich rol fel cadeirydd ac i rannu eich profiadau hyd yn hyn.

## Codi ymwybyddiaeth o Rôl Cynorthwywyr Addysgu yn ein Hysgolion:Canllaw Llywodraethwyr

Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar:

- ddefnyddio cynorthwywyr addysgu yn effeithiol i gefnogi cynnydd disgyblion
- Hawl Dysgu Proffesiynol ar gyfer yr holl gynorthwywyr addysgu
- gwybodaeth i lywodraethwyr ar gefnogaeth bwrpasol CCD I gynorthwywyr addysgu.

## Rhaglen Hyfforddiant Ragarweiniol i Lywodraethwyr

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn ceisio ymgorffori diwylliant o hyfforddi a mentora ar draws ein holl ysgolion. Mae hyn yn cynnwys ein cyrff llywodraethu.

Bydd y sesiwn yn eich cyflwyno i ystod o sgiliau a strategaethau hyfforddi a fydd yn cyfoethogi ac yn ysbrydoli'r sgyrsiau a fyddwch chi'n eu cael gyda'ch uwch dim arwain ac aelodau eraill o gymuned yr ysgol.

## Cefnogi Eich Ysgol Trwy Arolygiad Estyn

Nod y sesiwn hon yw cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Llywodraethwyr i rannu gwaith eu hysgol yn effeithiol ar gyfer arolygiad Estyn. Bydd yn esbonio'r broses arolygu, rol llywodraethwyr yn y broses a rhai o'r themau sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau.

Bydd y sesiwn yn rhyngweithiol gyda chyfle i wrando a siarad ag arweinwyr rhanbarthol llywodraethu am eu profiadau yn ystod arolygiadau diweddar; bydd hefyd yn ofynnol i gyfranogwyr ymgysylltu a deunyddiau cyn-ddarllen ac adfyfyrio a fydd yn cael eu rhannu cyn y sesiwn.

## Adroddiad Cryno Ysgolion

Mae Adroddiad Cryno'r Ysgol (ACY) yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth sydd gan Gonsortiwm Canolbarth y De ar ysgol i Gyrff Llywodraethol. Bwriedir i'r adroddiad gefnogi Llywodraethwyr gyda'u gwybodaeth o'r ysgol gan ddarparu arweiniad hefyd ar y meysydd y gallan nhw ofyn mwy o gwestiynau er mwyn cael mwy o fewnwelediad.

Byddwn yn cynnal dwy sesiwn galw heibio lle bydd Prif Bartneriaid Gwella ar gael i ateb unrhyw gwestiynau neu gynnig cefnogaethynghylch sut i ddefnyddio'r ACY yn effeithiol i gefnogi gwella ysgolion.

## Iechyd a Diogelwch

Bydd y cwrs hwn yn darparu dealltwriaeth o ddull y Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles o archwilio ysgolion. Bydd yn arbennig o ddefnyddiol i bob llywodraethwr Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch/Safleoedd ac unrhyw un sydd â diddordeb penodol yn y maes allweddol hwn. Nod y cwrs yw

• Esbonio pam mae'r archwiliad wedi'i sefydlu yn y ffordd hon;

• Ymdrin â materion cyfoes a rhai meysydd risg allweddol, gan gynnwys ymweliad diweddar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;

• Cyflwyno llawer o gwestiynau perthnasol i’r llywodraethwyr y gellir eu trafod yn fanwl yn ystod y sesiwn.

## Gofalwyr Ifanc Di-dâl:  Codi ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi

**Gofalwyr Ifanc Di-dâl:  Codi ymwybyddiaeth, nodi a chefnogi.**

Mae gofalwyr ifanc yn blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n darparu gofal a chefnogaeth i aelod o'r teulu sy'n anabl, yn sâl yn gorfforol neu'n feddyliol, neu sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau.

Mae tua 1 o bob 8 person ifanc yn ofalwr ifanc di-dâl,   Amdanom Ni - Gofalu fel Gofalwr Ifanc | Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

Nod y sesiwn hyfforddi ar-lein hon yw codi ymwybyddiaeth ymhlith llywodraethwyr am ofalwyr ifanc di-dâl a hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael ym Mro Morgannwg, yn enwedig:

- Cynllun Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc a Phrosiect Gofalwyr Ifanc y Fro – dan oruchwyliaeth YMCA

- Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc mewn Ysgol - dan oruchwyliaeth Tuvida

## Cyllidebau Gwasanaeth ac Ysgolion

Mae'r cwrs hwn ar gyfer y llywodraethwyr hynny sy'n aelodau o bwyllgor cyllid eu corff llywodraethu a bydd yn rhoi trosolwg ar arian ysgolion ac addysg.

Mae'r meysydd penodol a drafodir yn cynnwys dadansoddiad o'r fformiwla cyllideb ysgolion, dadansoddi gwybodaeth ariannol, paratoi a monitro cyllideb ysgol, y fframwaith ariannol ac adrodd ariannol. Er y bydd yn fwyaf perthnasol i lywodraethwyr sy'n aelodau o bwyllgorau cyllid, mae croeso i bob llywodraethwr sydd â diddordeb yn y maes allweddol hwn.

## Cynlluniau Cymorth Bugeiliol

Nodau'r hyfforddiant hwn yw cefnogi llywodraethwyr i fod yn hyderus i ddeall y canlynol;

- Beth yw Cynlluniau Cymorth Bugeiliol?
- Beth yw Dysgu Hyblyg?
- Beth yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol?
- Pryd gallai Cynllun Cymorth Bugeiliol weithredu er budd y plentyn?
- Pryd allai cynllun dysgu hyblyg weithredu er budd y plentyn?
- Beth i'w ddisgwyl gan swyddogion yr ALl?

.

## Dileu Swyddi

Bydd y cwrs hwn yn cwmpasu rôl y corff llywodraethu o fewn y polisi Dileu Swyddi a argymhellir gan y Cyngor. Ei nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn hollol gyfarwydd â'r polisi a'r gweithdrefnau Dileu Swyddi a argymhellir.

Mae'n arbennig o berthnasol i lywodraethwyr sy'n aelodau o'r pwyllgor disgyblu a diswyddo staff a'r pwyllgor apeliadau disgyblu a diswyddo staff yn ogystal â'r pwyllgor cyllid.

## Cydraddoldeb

Mae hwn yn drosolwg o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol mewn ysgolion. Y nod yw sicrhau bod llywodraethwyr yn fwy hyderus i hybu cydraddoldeb. Mae'r sesiwn yn cefnogi llywodraethwyr i wella cyfranogiad, ymgysylltu a chyfathrebu gyda grwpiau gwarchodedig. Amlinellir strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc i oresgyn rhwystrau, fel y gallant gyrraedd eu llawn botensial. Bydd y sesiwn hon hefyd yn cyfeirio at rôl Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru a gellir gweld gwybodaeth amdani yma

Cofrestrwch ar gyfer cwrs neu gyrsiau trwy glicio ar y ddolen ffurflen archebu

## Vale of Glamorgan Governor Training Booking Form - Spring 2025

## Tîm Cefnogi Llywodraethwyr Bro Morgannwg


**John Sparks – Pennaeth Cymorth Llywodraethwyr**

jsparks@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709106

**Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr**

fwright@valeofglamorgan.gov.uk

01446 709125


Llywodrethwyr (valeofglamorgan.gov.uk)

**Gwanwyn 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**

# Dyddiadau Hyfforddi

| Date | Time | Session |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 28 Ionawr | 5.30-7.30pm | Data |
| Dydd Mercher 29 Ionawr | 1.00-3.00pm | Supporting your school through Inspection |
| **Dydd Mercher 29 Ionawr** | **5.30-7.00pm** | **Finance/School Budgets (in-person)** |
| Dydd Iau 30 Ionawr | 5.30-7.30pm | Induction |
| Dydd Llun 3 Chwefror | 10.00-11.00am | School Summary Report |
| Dydd Llun 3 Chwefror | 1.00-3.00pm | Induction |
| Dydd Mawrth 4 Chwefror | 10am-12noon | Induction |
| Dydd Mercher 5 Chwefror | 10am-12noon | Data |
| Dydd Iau 6 Chwefror | 5.30-7.30pm | Induction |
| Dydd Llun 10 Chwefror | 10am-12noon | Safeguarding |
| Dydd Llun 10 Chwefror | 1.00-3.00pm | Data |
| Dydd Llun 10 Chwefror | 4.00-5.00pm | Raising Awareness of role of TA's in schools |
| **Dydd Mawrth 11 Chwefror** | **5.30-7.00pm** | **Pastoral Support Plans** |
| Dydd Mercher 12 Chwefror | 10am-12noon | Induction |
| Dydd Mercher 12 Chwefror | 4.00-5.00pm | Headteacher Performance Management |
| Dydd Iau 13 Chwefror | 5.30-7.30pm | Data |
| Dydd Llun 17 Chwefror | 10am-12noon | Equity & Excellence for All |
| Dydd Mawrth18 Chwefror | 10am-12noon | Data |
| **Dydd Mercher 19 Chwefror** | **5.30-7.00pm** | **Redundancy** |
| **Dydd Llun 24 Chwefror** | **Half** | **Term week** |
| Dydd Llun 3 Mawrth | 1.00-3.00pm | Safeguarding |
| Dydd Mawrth 4 Mawrth | 10am-12noon | Safeguarding |
| Dydd Mawrth 4 Mawrth | 4.00-6.00pm | Introductory Coaching Programme for Governors |
| Dydd Mercher 5 Mawrth | 5.30-7.30pm | Safeguarding |
| Dydd Iau 6 Mawrth | 5.30-7.30pm | Safeguarding |
| Dydd Llun 10 Mawrth | 1.00-3.00pm | Equity & Excellence for All |
| Dydd Mawrth 11 Mawrth | 5.30-7.30pm | Equity & Excellence for All |
| **Dydd Mercher 12 Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Young Carers** |
| Dydd Iau 13 Mawrth | 1.00-3.00pm | Induction |
| Dydd Iau 13 Mawrth | 5.30-7.30pm | Equity & Excellence for All |
| Dydd Mawrth 18 Mawrth | 1.00-3.00pm | Data |
| **Dydd Iau 20 Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **Equality** |
| Dydd Llun 24 Mawrth | 5.30-7.30pm | Induction |
| Dydd Mawrth 25 Mawrth | 10am-12noon | Equity & Excellence for All |
| Dydd Mercher 26 Mawrth | 5.30-7.30pm | Data |
| **Dydd Iau 27 Mawrth** | **5.30-7.00pm** | **H&S** |
| **Dydd Iau 3 Ebrill** | **5:30-6:30pm** | **Designated Safeguarding Governors** |

**Clych A - Blue**
**Clych B - Green**
**Cylch C – Purple (welsh language)**
**Stand Alone Sessions - Orange**
**RED – Vale of Glamorgan LA Courses**

**Gwanwyn 2025**

**Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr**

**Bro Morgannwg**